

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 3 Medi 2024

Teitl: Cynigion yr adolygiad ar y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos oddi ar y stryd, Mehefin 2024

Pwrpas yr adroddiad: Amlinellu'r cynigion er mwyn ateb y gofyn yng nghyllideb gymeradwy'r Cyngor i gael rhagor o incwm o'r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos oddi ar y stryd

Er: Penderfyniad

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Keith Henson, Aelod o'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon

Cefndir

Ar 29 Chwefror 2024 gwnaeth y Cyngor gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2024/25. Roedd y gyllideb hon yn cynnwys disgwyliad y byddai rhagor o incwm yn cael ei gynhyrchu o'r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos oddi ar y stryd i fantoli'r gyllideb, sef y byddai £1,700,000 o incwm (net) yn cael ei gynhyrchu o'r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos presennol.

Ar 11 Gorffennaf 2024 cyflwynodd y swyddogion adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a oedd yn nodi pecyn o gynigion gyda'r nod o gyflawni'r incwm disgwyliedig yma, ynghyd â symleiddio'r taliadau a godir ar hyn o bryd a'r trefniadau. Gellir gweld yr adroddiad fan hyn - Cynigion yr adolygiad ar y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos oddi ar y stryd, Mehefin 2024 - a rhoddir crynodeb o'r cynigion yn **Atodiad A**.

Bydd gofyn diwygio'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig presennol ar gyfer parcio oddi ar y stryd yn achos y rhan fwyaf o'r cynigion, a bydd hyn yn destun proses o ymgynghori â'r cyhoedd a chael cymeradwyaeth y Cabinet cyn ei weithredu. Os bydd angen diwygio'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i weithredu'r cynnig, caiff hyn ei nodi yn nheitl y cynnig fesul Gorchmyn.

Yn sgil yr heriau ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, bydd methu â chyflawni'r disgwyliad incwm yn golygu bod angen canfod arbedion pellach yn nghyllideb y Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi eisoes yng nghyllideb 2024/25.

Ar y sail hon byddai angen derbyn y pecyn yn ei gyfanrwydd, ac ni fyddai'n bosib i rai o'r mesurau – e.e. prisiau is ar gyfer tocynnau tymor – fynd rhagddynt heb fod y cynigion eraill yn digwydd hefyd.

Argymhellion y Pwyllgor Craffu

Yn y cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2024 cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i argymhell bod y Cabinet yn cefnogi'r pecyn o gynigion yn amodol ar y canlynol:-

- (i) bod Aseiad Effaith Integredig ynghylch y cynigion yn cael ei gwblhau,
- (ii) bod adroddiad am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor cyn i'r Cabinet ystyried y cynigion a chytuno arnynt yn derfynol; a
- (iii) bod y bwriad i godi tâl ar ddeiliaid Bathodynau Glas yn cael ei dynnu allan o'r cynigion.

Argymhellion y Swyddogion

O ran yr argymhellion a gynigiwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, hoffai'r swyddogion roi gwybod:

- (i) bod Aseiad Effaith Integredig ynghylch y cynigion wedi cael ei gwblhau ac wedi'i gynnwys ar ffurf Atodiad C;
- (ii) y bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor cyn i'r Cabinet ystyried y cynigion a chytuno arnynt yn derfynol, os daw nifer o wrthwynebiadau dilys a rhesymegol i law; a
- (iii) yr eglurwyd yn ystod y drafodaeth ac yn yr adroddiad a gyflwynwyd y 'byddai angen derbyn y pecyn yn ei gyfanrwydd ac na fyddai'n bosib i rai o'r mesurau fynd rhagddynt heb fod y cynigion eraill yn digwydd hefyd.' Cynghorir bod y taliadau a gynigir ar gyfer deiliaid Bathodynau Glas yn cael eu cadw yn y cynnig yr ymgynghorir arno, oherwydd amcangyfrifir y byddai diffyg posib o £170,000 ar yr incwm targed a osodwyd gan y Cyngor ar y sail bod 10% o ddefnyddwyr y meysydd parcio yn dal Bathodyn Glas.

Os dymuna'r Cabinet dderbyn yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, mae cyfres diwygiedig o daliadau wedi'i chynnig yn Atodiad B a fydd yn dal i gyflawni'r targed o £1.7m a osodwyd gan y Cyngor.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Oes- Atodiad C.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn fodd o sicrhau bod llefydd parcio ar gael, gan gynnwys trosiant llefydd, mewn trefi lle mae meysydd parcio Talu ac Arddangos Oddi ar y Stryd wedi'u lleoli.

Cydweithio: Bydd y cynnig yn destun ymgynghori â rhanddeiliaid eraill er mwyn llunio'r cynigion terfynol a gyflwynir ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Cynnwys: Mae'r cynnig wedi bod drwy'r Pwyllgor Craffu perthnasol a bydd yn destun rhagor o ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cyn cael ei ystyried gan y Cabinet a chyn y gellir ei roi ar waith.

Atal: Nid yw parcio oddi ar y stryd yn wasanaeth ataliol.
Integreiddio: Ni fernir ei bod yn bosib integreiddio'r gwasanaeth gyda gweithgareddau a wneir gan randdeiliaid neu bartneriaid eraill.

Argymhellion:

Argymhellir bod y Cabinet yn cytuno:

- a) bod swyddogion yn mynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion a gyflwynwyd gan y swyddogion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 11 Gorffennaf 2024 (gan gynnwys y cynnig i godi tâl ar ddeiliaid Bathodynau Glas); neu
- b) bod swyddogion yn mynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion a gyflwynwyd gan y swyddogion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 11 Gorffennaf 2024, ond bod y cynnig i godi tâl ar ddeiliaid Bathodynau Glas yn cael ei adael allan a bod y cynnig i godi tâl a geir yn Atodiad B yn cael ei fewnosod yn lle'r Tabl 2 a gyflwynwyd; a hefyd
- c) bod adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor cyn i'r Cabinet ystyried y cynigion a chytuno arnynt yn derfynol, os daw nifer o wrthwynebiadau dilys a rhesymegol i law.

Rheswm am y penderfyniad:

I sicrhau bod y disgwyliad o ran incwm - a gytunwyd gan y Cyngor fel rhan o'r broses o osod cyllideb 24/25 - yn cael ei gyflawni, gan symleiddio'r taliadau a'r trefniadau presennol.

Trosolwg a Chraffu:

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus – 11.07.24

Fframwaith Polisi:

Ddim yn berthnasol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Cwtogiadau Cyllidebol 24/25

Goblygiadau Cyfreithiol:

Ddim yn berthnasol

Goblygiadau Staffio:

Ddim yn berthnasol

Goblygiadau eiddo / asedau:

Ddim yn berthnasol

Risg(iau):

Ddim yn berthnasol

Pwerau Statudol:

Deddf Traffig Ffyrdd 1988

Papurau Cefndirol:

Ddim yn berthnasol

Atodiadau:

Atodiad A – Crynodeb o'r Cynigion

Atodiad B – Taliadau Parcio diwygiedig i ganiatáu parcio am ddim i ddeiliaid
Bathodynau Glas

Atodiad C – Aseiad Effaith Integredig

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Rhodri Llwyd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau
Amgylcheddol

Swyddog Adrodd:

Katy Spain, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Trafnidiaeth

Dyddiad:

29 Gorffennaf 2024

ATODIAD A – Crynodeb o Gynigion y Meysydd Parcio

Y Cynigion

1. Newidiadau i'r Tocynnau Tymor a gynigir (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig

Yn achos ceir, beiciau modur a faniau (hyd at 3.5t ond heb gynnwys cartrefi modur a cherbydau gwersylla) cynigir:

- Gwaredu'r opsiynau presennol ar gyfer tocyn tymor penodol mewn maes parcio, sy'n cyfyngu'r deiliad i barcio yn y maes parcio penodedig a nodir ar y tocyn tymor, a chael gwared ar y Tocyn Tymor Parcio Arhosiad Hir presennol ledled Ceredigion.
- Sefydlu Tocyn Tymor Parcio Arhosiad Hir Ceredigion (ac eithrio Maes Parcio Ffordd y Gogledd, Aberystwyth) a fydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ddeiliaid barcio yn unrhyw un o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos Arhosiad Hir y Cyngor, ac eithrio Maes Parcio Ffordd y Gogledd. Bydd hwn ar gael i unrhyw un o'r cyhoedd ei brynu.
- Sefydlu Tocyn Tymor Parcio Arhosiad Hir ar gyfer Ffordd y Gogledd a Cheredigion yn fwy eang a fydd yn cael ei gyfyngu i 40 o docynnau tymor ar unrhyw adeg ac a fydd ar gael yn unig i drigolion a phobl a gyflogir mewn eiddo yn yr ardal a nodir yn y map yn Atodiad 1. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ddeiliaid barcio yn unrhyw un o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos Arhosiad Hir y Cyngor. Bernir bod hyn yn angenrheidiol o ystyried mai hyn a hyn o le sydd ym Maes Parcio Ffordd y Gogledd (54 o lefydd) a'i bwysigrwydd cymharol fel maes parcio ar gyfer y rhai sy'n mynychu apwyntiadau yng Nghlinig Ffordd y Gogledd. Bydd faint sy'n manteisio ar y tocyn tymor hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu ac os oes gormod yn bachu ar y cyfle, efallai fydd yr hawl i fod yn gymwys yn dychwelyd dim ond i drigolion y parth yn y dyfodol.

Mewn perthynas â threfniadau tocynnau tymor Cerbydau Trwm (HGV / Bws) cynigir:

- Dileu cerbydau trwm o Faes Parcio y Baddondy sydd ddim yn addas ar gyfer y math hwn o gerbyd. Nid oes llefydd parcio dynodedig gan y maes parcio hwn ar gyfer y mathau hyn o gerbydau ac oherwydd ei faint a'i gynllun byddai'n anymarferol darparu llefydd pwrpasol ar eu cyfer. Yn ogystal â hyn, mae cael mynediad i Faes Parcio'r Baddondy yn gallu bod yn anodd i gerbydau mwy o faint.

Ar wahân i'r newid hwn, bydd Tocynnau Tymor Cerbydau Trwm yn parhau i fod yn benodol i faes parcio oherwydd y nifer gyfyngedig o feysydd parcio sy'n addas ar gyfer y math hwn o gerbyd, ac sy'n eu caniatáu.

Ar y cyd â'r uchod, cynigir adolygu graddfa'r taliadau ar gyfer Tocynnau Tymor yn unol â Thabl 1. Byddai hyn yn safoni'r taliadau ledled y Sir ac yn lleihau cost y tocynnau tymor presennol sydd ar gael, gan wneud opsiwn o'r fath yn fwy fforddiadwy i drigolion.

Y rhesymeg gyffredinol dros wneud y cynnig uchod yw y bydd yn symleiddio'r ddarpariaeth bresennol ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddeiliaid tocynnau pe bai diffyg lle mewn rhyw faes parcio ar ryw adeg benodol, neu gallant ymweld ag ardal arall yng Ngheredigion os ydynt yn dymuno. Bydd hyn hefyd o fudd yn enwedig i ddeiliaid sy'n byw mewn un dref ac yn gweithio mewn un arall ac sydd eisiau defnyddio Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor wrth barcio yn y ddau le.

Math o Docyn Tymor	3 mis	6 mis	9 mis	12 mis
Ceir, beiciau modur a faniau hyd at 3.5t (<i>ac eithrio cartrefi modur a cherbydau gwersylla</i>)				
Arhosiad Hir Ceredigion (ac eithrio Ffordd y Gogledd)	£90	£165	£240	£295
Arhosiad Hir Ceredigion (gan gynnwys Ffordd y Gogledd) – <i>i drigolion a phobl a gyflogir yn yr ardal benodedig</i>	£90	£165	£240	£295
Cerbydau Trwm (HGV / Bws) – Penodol i Faes Parcio - <i>dewis un o blith y meysydd parcio canlynol:</i>				
Aberystwyth – Coedlan y Parc Isaf. Aberteifi – Cae'r Ffair, Mwldan neu Stryd y Cei. Llanbedr Pont Steffan – y Rookery. Cei Newydd – Ffordd yr Eglwys	£180	£330	£480	£600

Tabl 1

Bydd lleihau a safoni'r taliadau hefyd yn rhoi mwy o werth am arian a bydd gostyngiad sylweddol o gymharu â'r rhan fwyaf o'r taliadau presennol. Byddai'r taliadau arfaethedig i bob pwrpas yn golygu, yn seiliedig ar brynu tocyn tymor o 12 mis, mai dim ond 81c y dydd fyddai'r gost o barcio bob dydd.

Byddai cwsmeriaid llai aml hefyd yn elwa o ostyngiad yng nghost tocynnau tymor gyda'r drefn newydd hon o godi tâl. Er enghraifft, i gwsmer sy'n prynu tocyn tymor ac sydd ond yn defnyddio Meysydd Parcio Ceredigion am dri diwrnod yr wythnos, byddai'r gost o barcio yn cyfateb i £1.89 y dydd, sef llai na'r gost arfaethedig o barcio am ddwy awr yn y bandiau tâl Arfordirol a Mewndirol a gynnigir.

2. Ymestyn Maes Parcio Maesyrafon yn Aberystwyth i mewn i hen safle Arriva (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a Chaniatâd Cynllunio yn ofynnol)

Cynnigir, ar yr amod y rhoddir Caniatâd Cynllunio, ymestyn Maes Parcio Maesyrafon i mewn i hen safle Arriva wrth ochr. Bydd y cynnig hwn yn cynyddu nifer y llefydd parcio sydd ar gael gan oddeutu 150 o lefydd, gan gynyddu'r capasiti ar gyfer parcio ceir yn Aberystwyth. Hefyd bydd y cynnig yn darparu gwelliannau gan gynnwys:

- Ad-drefnu a darparu lôn droi i mewn i brif fynedfa bresennol y maes parcio.
- Golwg gyffredinol y maes parcio.

- Cau mynediad i atal y maes parcio rhag cael ei ddefnyddio fel llwybr tarw. Bydd hyn yn gwella diogelwch ar y ffordd ac yn lleihau llif traffig ar y strydoedd preswyl cyfagos ac ar hyd y llwybr teithio llesol presennol.
- Mesurau teithio llesol ar ffurf llwybr cyd-ddefnyddio drwy'r safle a fydd yn cysylltu llwybr beicio presennol Ystwyth yn fwy uniongyrchol gyda Boulevard St Brieuc.

Mae map dangosol o'r cynnig i'w weld yn Atodiad 2.

Bydd y telerau a'r amodau, gan gynnwys y mathau o gerbydau a ganiateir, yn cyd-fynd â maes parcio ehangach Maesyrafon. Bydd y taliadau perthnasol a godir hefyd yn cyd-fynd â'r ffioedd a'r taliadau sy'n berthnasol i faes parcio presennol Maesyrafon.

3. Newid diffiniad maes parcio Rhes Gloster / Llew Coch, Aberteifi (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig)

Cynigir newid diffiniad maes parcio Rhes Gloster / Llew Coch yn Aberteifi o fod yn Faes Parcio Talu ac Arddangos i fod yn faes parcio ar gyfer deiliaid Tocyn Tymor yn unig. Gwneir y cynnig am y rhesymau canlynol:

- Mae'r mynediad i'r maes parcio wedi'i gyfyngu'n fawr ac ni ystyrir ei bod yn briodol annog traffig ymwelwyr i fynd i'r lleoliad hwn.
- Maes parcio bach ydyw sydd ond â hyn a hyn o lefydd.
- Mae'r maes parcio yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan drigolion y strydoedd cyfagos a bychan yw'r defnydd gan fathau eraill o ymwelwyr / cwsmeriaid.
- Ni ystyrir ei bod yn gost effeithiol gosod a chynnal peiriant talu ac arddangos newydd ar gyfer y nifer gyfyngedig o ymwelwyr dydd / cwsmeriaid sy'n defnyddio'r maes parcio.

4. Newid diffiniad maes parcio Pendre, Aberteifi (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig)

Er bod Maes Parcio Pendre wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol fel maes parcio i Ddeiliaid Trwyddedau yn unig cyn COVID, ystyrir y byddai'n cael ei ddefnyddio'n well o hyn ymlaen fel maes parcio Talu ac Arddangos arhosiad byr (uchafswm o ddwy awr, uchafswm o dair awr ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn unol â'r awr ychwanegol a gynigir fel rhan o'r newidiadau arfaethedig yn y trefniadau i ddeiliaid Bathodyn Glas). Rydym o'r farn hon am y rhesymau canlynol:

- Mae'r maes parcio mewn lleoliad dethol yn Aberteifi a dyma'r maes parcio agosaf i'r prif fannau siopa. Byddai cyflwyno maes parcio Talu ac Arddangos arhosiad byr (uchafswm o ddwy awr, uchafswm o dair awr ar gyfer deiliaid bathodyn glas gyda'r awr ychwanegol a roddir) yn cynyddu'r ddarpariaeth arhosiad byr yn Aberteifi. Byddai'r maes parcio yn darparu ar gyfer y rhai sy'n dymuno parcio a siopa / defnyddio gwasanaethau'r stryd fawr ac yn cynnig trosiant o lefydd parcio yn ystod y dydd.
- Byddai maes parcio arhosiad byr yn y lleoliad hwn yn cynnig mynediad gwastad i'r stryd fawr i'r rheiny sydd ag anhawster o ran symudedd. Mae'r mynediad i'r stryd fawr i ddeiliaid Bathodyn Glas yn mynd o'r maes parcio arhosiad byr

presennol yng Nghae Glas/Greenfield ac i fyny Rhos y Coleg sy'n rhiw serth heb balmant i gerddwyr.

- Pan ddefnyddiwyd ef diwethaf fel maes parcio deiliaid trwydded yn unig yn 2019/20, cynhyrchwyd incwm o £1,925.98 o daliadau les. Mae potensial i faes parcio arhosiad byr, ar yr un cyfraddau ag a godir ym maes parcio Cae Glas/Greenfield, fynd yn uwch na'r incwm a fyddai'n cael ei gyflawni drwy drefniant trwydded neu docyn tymor.

Yr oriau codi tâl am barcio yn y maes parcio fyddai 08:00-18:00, fel yn achos meysydd parcio eraill yng nghanol trefi. Felly, darperir parcio am ddim y tu allan i'r oriau hyn a fydd yn hwb i economi canol y dref gyda'r nos.

5. Symleiddio taliadau / tariffau ar draws y sir (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig)

Ar hyn o bryd mae'r taliadau / tariffau parcio yn amrywio rhwng trefi ac, mewn rhai achosion, o fewn tref. Cynigir gweithredu strwythur codi tâl symlach ledled meysydd parcio talu ac arddangos y sir a fydd yn cynnwys:

- Pob math o gerbydau yn talu'r un gyfradd mewn maes parcio.
- Gweithredu dau fand o daliadau sef:
 - Arfordir Ceredigion (Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth a Cheinewydd)
 - Mewndir Ceredigion (Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron)
- Safoni'r tariffau fydd ar gael ar draws pob maes parcio: 2 awr, 4 awr a 24 awr (ac eithrio Maes Parcio Arhosiad Byr Sgwâr Cae Glas/Greenfield a fydd yn cadw'r tariff 3 awr).
- Cael gwared ar yr opsiwn o brynu tocyn wythnosol mewn meysydd parcio arhosiad hir (gyda'r bwriad o hwyluso'r opsiwn o brynu tocynnau diwrnod lluosog drwy daliad ychwanegol dros y ffôn/ ap).
- Cynnig cysondeb drwy fod:
 - Pob maes parcio tymhorol presennol yn newid i godi tâl drwy gydol y flwyddyn.
 - Pob maes parcio tymhorol presennol yn newid i godi tâl rhwng 8am a 6pm (yn unol â'r cyfnod codi tâl safonol ar gyfer meysydd parcio Talu ac Arddangos).

Bydd y cynnig yn:

- Symud yn nes at gael cwsmeriaid i dalu'r un tâl am yr un gwasanaeth ar draws y sir.
- Darparu strwythur codi tâl symlach sy'n haws i'w gyfathrebu a'i ddeall.
- Symleiddio rhagor ar y peiriannau talu ac arddangos i'r cwsmeriaid gan fod llai o opsiynau ar gael i'w dewis.
- Ehangu'r cyfleoedd parcio am ddim mewn meysydd parcio tymhorol ar ôl 6pm a fydd yn cefnogi'r economi gyda'r nos a gweithgareddau hamdden ar ôl oriau gwaith traddodiadol.
- Diwygio'r strwythur ffioedd a thaliadau a bydd hyn, mewn rhai achosion, yn gostwng cost y tocynnau o gymharu â'r rhai presennol.

- Galluogi costau tocynnau tymor yn gyffredinol i gael eu lleihau yn unol â'r cynigion a nodir ym mhwynt 1.
- Lleihau'r costau o roi newidiadau ar waith ynghylch tocynnau talu ac arddangos, o ran costau hysbysebu a diweddarau meddalwedd.

Hefyd, ar sail y gweithgarwch modelu a wnaed, dylai'r cynigion gefnogi'r gwaith o gyflawni rhagor o incwm fel y nodwyd yn y broses o osod cyllideb 2024-25.

Mae'r bandiau tâl arfaethedig wedi'u nodi yn Nhabl 2 isod.

Parth	2 awr	3 awr	4 awr	24 awr
Arfordir Ceredigion – <i>Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth a Cheinewydd</i>	£3.50	£4.00* <i>*Sgwâr Cae Glas/Greenfield Square yn unig</i>	£4.50	£6.50
Mewndir Ceredigion – <i>Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron</i>	£2.50	Ddim yn berthnasol	£3.50	£4.50

Tabl 2

6. Lleihau pa mor aml y newidir ffioedd a thaliadau

Ar hyn o bryd mae ffioedd a thaliadau sy'n berthnasol i feysydd parcio talu ac arddangos yn cael eu newid yn flynyddol fel rhan o'r broses o bennu ffioedd a thaliadau. Mae costau ynghlwm wrth weithredu a chyfathrebu'r newidiadau hyn o ran hysbysiadu cyhoeddus a diweddarau meddalwedd.

Cynigir bod newidiadau o ran ffioedd a thaliadau'r meysydd parcio yn mynd yn ôl i ddiwydd naill ai mewn cylchoedd o dair blynedd neu bum mlynedd, yn hytrach nag yn flynyddol. Neu, os na chefnogir hyn, bod y ffioedd a'r taliadau arfaethedig a nodir yn y pecyn hwn o fesurau yn cael eu cadw, ar ôl eu gweithredu, tan fis Ebrill 2027 o leiaf (disgwyllir i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith tua diwedd 2024 neu ddechrau 2025).

Mae manteision y dull hwn yn cynnwys:

- Lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysebu a newid meddalwedd y peiriannau talu ac arddangos, sydd oddeutu £15k y flwyddyn.
- Lleihau'r gwaith gweinyddu sydd ei angen i weithredu'r newidiadau.
- Cysondeb tymor hir sy'n cefnogi'r gallu i farchnata a hyrwyddo'r cynnig.
- Rhoi mwy o sicrwydd i gwsmeriaid ynghylch costau parcio.
- Medru gosod ffioedd â rhifau crwn sydd ddim yn destun codiadau canrannol sy'n arwain at dalgrynnu'r ffigurau.
- Sefydlogi'r prisiau am gyfnod fel bod modd monitro effaith y newidiadau.

7. Newid y dull o godi tâl ar Ddeiliaid Bathodynau Glas (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig)

Ar hyn o bryd dim ond i ddeiliaid Bathodyn Glas mewn cerbyd sy'n talu Treth Car o £0 y rhoddir parcio am ddim, oherwydd meini prawf penodol sy'n rhoi hawl iddynt gael eu heithrio o achos anabledd. Mae gofyn i bob deiliad bathodyn glas arall dalu am barcio. Mae nifer y cwsmeriaid y mae'r eithriad hwn yn berthnasol iddynt yn fach ac mae'n gallu bod yn anodd cyfathrebu â chwsmeriaid ynghylch pwy sy'n gymwys i gael eu heithrio a phwy sydd ddim. Cynigir bod y trefniant codi tâl presennol yn newid fel a ganlyn:

- Bod taliadau yn berthnasol i bob deiliaid Bathodyn Glas waeth beth yw statws Treth y cerbyd y maent yn teithio ynddo.
- Bod pob deiliaid Bathodyn Glas yn derbyn 1 awr ychwanegol o barcio am ddim ar ben y cyfnod y maent yn talu amdano e.e. bydd prynu tocyn dwy awr yn rhoi hawl iddynt barcio am dair awr.

Bydd y newid hwn yn:

- Trin holl ddeiliaid Bathodyn Glas yn fwy teg gyda'r un taliadau ar waith beth bynnag yw statws Treth y cerbyd.
- Darparu amser ychwanegol o hyd at 1 awr ar ben y cyfnod y maent yn talu amdano, gan gydnabod y gallai anhawster symudedd gael effaith ar yr amser sydd ei angen i ddefnyddio gwasanaethau / cyfleusterau ar ôl parcio.
- Nesáu Ceredigion at y dull sydd ar waith ym meysydd parcio Talu ac Arddangos cynghorau sir cyfagos Caerfyrddin, Penfro a Phowys.
- Ei gwneud hi'n haws i gyfathrebu'r sefyllfa ymhlith cwsmeriaid.
- Cael gwared ar yr heriau presennol o ran adnabod pwy sy'n gymwys i gael yr eithriad lle mae cerbyd yn arddangos Bathodyn Glas ond heb dalu ar ôl cael gwared ar ddisgiau papur y dreth.

8. Gweithgarwch gweinyddol/ trefnu (Gorchymyn Rheoleiddio Traffig)

Yn fwy cyffredinol, fel rhan o'r cynigion hyn, cynhelir gweithgarwch gweinyddol i dynnu ynghyd y gwelliannau blaenorol i orchmynion rheoleiddio traffig sydd wedi digwydd ers 2012, os ydynt yn parhau'n berthnasol, a'u cynnwys mewn gorchymyn newydd sy'n hwyluso'r pecyn o gynigion e.e. newidiadau blaenorol i'r math o gerbyd a ganiateir mewn rhai meysydd parcio, neu ychwanegu / dileu meysydd parcio o'r gorchmynion gwreiddiol a weithredwyd.

ATODIAD B – Strwythur Ffioedd Diwygiedig y Meysydd Parcio

Mae'r bandiau tâl arfaethedig - i ganiatáu parcio am ddim i ddeiliaid Bathodynau Glas - wedi'u nodi yn Nhabl 2a isod.

Parth	2 awr	3 awr	4 awr	24 awr
Arfordir Ceredigion – <i>Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth a Cheinewydd</i>	£4.00	£4.50* <i>*Sgwâr Cae Glas/Greenfield Square yn unig</i>	£5.00	£7.00
Mewndir Ceredigion – <i>Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron</i>	£3.00	Ddim yn berthnasol	£4.00	£5.00

Tabl 2a



TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

Manylion y Cynnig

Teitl y Polisi / Cynnig / Menter	
Pecyn o gynigion sy'n gysylltiedig â Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor	
Maes Gwasanaeth	Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Rheolwr Gwasanaeth
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Cyfarwyddwr Strategol
Rhodri Llwyd	Barry Rees
Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig	
Cynigir diwygio'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â meysydd parcio Talu ac Arddangos y Cyngor er mwyn safoni a symleiddio'r trefniadau ar gyfer cwsmeriaid.	
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? AWGRYM	
Cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.	
A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?	
Nac ydyn. Fodd bynnag, mae'r cynigion wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol a byddant yn destun prosesau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus. Os gofynnir am newidiadau mawr yn ystod proses yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y cynigion hefyd yn rhan o adroddiad arall a fydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd hynny'n digwydd ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus a chyn i'r Cabinet ystyried y cynigion ar gyfer eu rhoi ar waith.	

Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb lle bynnag y bo modd.

Rhif y Fersiwn	Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Dyddiad yr Ystyriwyd	Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed
		AWGRYM		AWGRYM

1.0	Rhodri Llwyd	Cyfnod cyn ymgynghori	05/08/24	Ddim yn berthnasol

Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n [Strategaeth Gorfforaethol 2022-27](#)

<p>Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth</p>	<p>Bwriad y cynnig yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safoni'r cynnig o ran Parcio Oddi ar y Stryd, gan sicrhau bod yr hyn a gynigir a'r wybodaeth sy'n ymwneud ag ef yn haws eu cyfathrebu â chwsmeriaid. Bydd y cwsmeriaid hyn yn cynnwys ymwelwyr â'r trefi, y trigolion lleol a chymudwyr. • Newid strwythur y ffioedd i annog cwsmeriaid i barcio am fwy o amser, gan gynyddu'r amser y maent yn ei dreulio yn y trefi. • Lleihau cost tocynnau tymor, a fydd yn cynnig arbedion i breswylwyr a chymudwyr sy'n defnyddio'r meysydd parcio yn rheolaidd. • Caniatáu i bobl sydd â thocynnau tymor ar gyfer ceir / faniau / beiciau modur barcio mewn gwahanol feysydd parcio. Bydd hyn yn annog cwsmeriaid i ymweld â threfi eraill gan y byddant yn gallu parcio heb dalu cost ychwanegol. • Cynyddu nifer y llefydd parcio talu ac arddangos sydd ar gael (ymestyn Maes Parcio Maesyrafon) a sicrhau mwy o fynd a dod o ran cerbydau (newid diffiniad Pendre o fod yn faes parcio ar gyfer deiliaid trwyddedau yn unig i fod yn faes parcio arhosiad byr). <p>Safoni ffioedd, diwrnodau ac amseroedd ar draws pob maes parcio. Newid yr oriau codi tâl mewn meysydd parcio tymhorol o 8am-10pm rhwng mis Mawrth a mis Hydref i 8am-6pm drwy'r flwyddyn gyfan. Bydd hyn yn cefnogi gweithgareddau gyda'r nos / yr economi liw nos, yn ogystal â gweithgareddau hamdden, gan na fydd ffioedd bellach yn cael eu codi rhwng 6pm a 10pm yn y meysydd parcio hynny.</p>
<p>Creu cymunedau gofalgar ac iach</p>	<p>Bydd safoni'r trefniadau ar gyfer pob un o ddeiliaid y bathodyn glas (mae'n ofynnol i ddeiliaid y bathodyn glas dalu ond maent yn derbyn awr yn ychwanegol at yr hyn a dalwyd amdano) yn golygu bod pob un o ddeiliaid y</p>

	bathodyn glas yn cael amser ychwanegol er mwyn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â symudedd.
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu	Ddim yn berthnasol
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	Mae codi tâl am barcio yn rhan o gyfres ehangach o fesurau sy'n ceisio lleihau'r defnydd a wneir o geir preifat ac annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio (cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus), yn enwedig ar gyfer teithiau byr o fewn y trefi a'r ardaloedd cyfagos.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi.

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Cadarnhaol

Bydd y newidiadau i'r cynnig o ran tocynnau tymor sy'n golygu bod modd eu defnyddio yng ngwahanol feysydd parcio Talu ac Arddangos arhosiad hir y Cyngor yn darparu cyfleoedd o ran parcio heb unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y gost o gael mynediad i gyflogaeth neu addysg yn gostwng i'r cwsmeriaid hynny yn y Parth Arfordirol arfaethedig, o'i gymharu â'r costau cyfredol. Hefyd, gall rhywun sy'n prynu tocyn tymor ac sy'n byw mewn un dref ac yn gweithio mewn un arall ddefnyddio'r meysydd parcio arhosiad hir yn y ddau leoliad heb gost ychwanegol (cyn hynny ni fyddai ond modd parcio mewn un maes parcio).

Bydd newid yr oriau codi tâl mewn meysydd parcio tymhorol o 8am-10pm rhwng mis Mawrth a mis Hydref i 8am–6pm drwy'r flwyddyn gyfan yn cefnogi gweithgareddau gyda'r nos / yr economi liw nos, yn ogystal â gweithgareddau hamdden, gan na fydd ffioedd bellach yn cael eu codi rhwng 6pm a 10pm yn y meysydd parcio hynny. Bydd hefyd yn caniatáu i breswylwyr barcio am ddim o 6pm tan 8am y tu allan i'r oriau gwaith traddodiadol.

Mae seilwaith i hwyluso'r trefniadau ar gyfer gwefru cerbydau trydan (EV) yn cael ei weithredu fel rhan o'r cynigion ehangach, ac yn benodol fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ymestyn Maes Parcio Maesyrafon.

Dylai newid strwythur ffioedd y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos annog cwsmeriaid i barcio am fwy o amser, gan gynyddu eu hamser yn y trefi a chefnogi busnesau manwerthu a busnesau eraill.

